Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

AGENDA

# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU AMGYLCHEDD, ADFYWIO A CYMDOGAETH

**10.00 AM DYDD GWENER, 9 CHWEFROR 2024**

**CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS**

**Rhaid gosod pob ffôn symudol ar y modd distaw ar gyfer parhad y cyfarfod**

Gellir ffilmio'r cyfarfod hwn i'w ddarlledu'n fyw neu'n ddiweddarach drwy wefan y cyngor. Drwy gymryd rhan, rydych yn cytuno i gael eich ffilmio ac i'r delweddau a'r recordiadau sain hynny gael eu defnyddio at ddibenion gweddarlledu a/neu hyfforddiant o bosib.

1. Cyhoeddiad y Cadeirydd

2. Datganiadau o fuddiannau

3. Cofnodion y cyfarfod blaenorol *(Tudalennau 5 - 20)*
   I'r Pwyllgor gymeradwyo cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ionawr 2024.

4. Craffu Cyn Penderfynu
   Dewis eitemau priodol o agenda'r Cabinet ar gyfer craffu cyn penderfynu (amgaeir adroddiadau ar gyfer yr Aelodau Craffu).

5. Eitemau brys
   Unrhyw eitemau brys yn ôl disgresiwn y Cadeirydd yn unol ag Adran 100BA(6)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

6. Blaenraglen Waith *(Tudalennau 21 - 22)*
   Bod y Pwyllgor yn derbyn Rhaglen Gwaith Cychwynnol Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd, Adfywio a Gwasanaethau Cymdogaeth ar

gyfer 2023-24.

7. Mynediad i gyfarfodydd
Mynediad i gyfarfodydd i benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r eitem ganlynol yn unol ag Is-adran 100a(4) a (5) Deddf Llywodraeth Leol 1972 a'r paragraffau eithriedig perthnasol o Ran 4 Atodlen 12a y Ddeddf uchod.

**Rhan 2**

8. Craffu Eitem/Eitemau Preifat Cyn Penderfynu
Dewis eitemau preifat priodol o agenda cyn craffu Bwrdd y Cabinet (Adroddiadau Bwrdd y Cabinet yn amgaeedig ar gyfer yr aelodau craffu).

**K.Jones**
**Prif Weithredwr**

**Canolfan Ddinesig**
**Port Talbot** **1 Chwefror 2024**

**Aelodaeth y Pwyllgor:**

**Cadeirydd:** **Y Cynghorydd S.Pursey**

**Is-gadeirydd:** **Y Cynghorydd T.Bowen**

**Cynghorwyr:** C.James, L.Williams, W.Carpenter, A.Dacey, R.Davies, N.Goldup-John, S.Thomas, R.W.Wood a/ac J.Jones

**Nodiadau:**

*(1) Os yw aelodau'r pwyllgor neu'r rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor am gynnig eitemau perthnasol i'w cynnwys ar yr agenda cyn cyfarfodydd y dyfodol, rhaid iddynt roi gwybod i'r Prif Weithredwr/Cadeirydd 8 niwrnod cyn y cyfarfod.*

*(2) Os yw'r rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor am fod yn bresennol ar gyfer eitem o ddiddordeb, mae'n rhaid rhoi rhybudd ymlaen llaw (erbyn 12 hanner dydd ar y diwrnod cyn y cyfarfod). Gall y rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor siarad ond nid oes ganddynt hawl i bleidleisio, cynnig nac eilio unrhyw gynnig.*

*(3) Fel arfer, ar gyfer trefniadau cyn craffu, bydd y Cadeirydd yn argymell eitemau gweithredol sydd ar ddod i'w trafod/herio. Mae hefyd yn agored i aelodau'r pwyllgor ofyn i eitemau gael eu trafod - er y gofynnir i'r aelodau ddewis a dethol yma o ran materion pwysig.*

*(4) Gwahoddir aelodau perthnasol Bwrdd y Cabinet hefyd i fod yn bresennol yn y cyfarfod at ddibenion Craffu/Ymgynghori.*

*(5) Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Craffu ddod â'u papurau ar gyfer Bwrdd y Cabinet i'r cyfarfod.*

Mae’r dudalen hon yn fwriadol wag

**PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU AMGYLCHEDD, ADFYWIO A CYMDOGAETH**

**(CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Gwener, 12 Ionawr 2024**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.Pursey** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd T.Bowen** |
| **Cynghorwyr**: | C.James, L.Williams, W.Carpenter, A.Dacey, R.Davies, N.Goldup-John, S.Thomas a/ac R.W.Wood |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | D.Griffiths, C.Morris, C.Plowman, M.Roberts, J.Stevens a/ac T.Rees |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr W.F.Griffiths, J.Hurley, S.Jones a/ac S.Paddison |
| **Arsylwyr:** | |

1. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Nododd y Cadeirydd fod aelodau'r Pwyllgor Craffu wedi cytuno i graffu ar yr eitemau canlynol o agenda Bwrdd y Cabinet:

- Eitem 7: Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2023/2024 - Perfformiad Chwarter 2 (1 Ebrill 2023 - 30 Medi 2023
- Eitem 11: Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd
- Eitem 12: Ynni Goleuadau Stryd
- Eitem 13: Cerbyd Di-allyriadau
- Strategaeth Isadeiledd (ZEVIS)
- Eitem 14: Mannau gwefru preswyl ar y stryd ar gyfer cerbydau trydan
- Eitem 15: Y Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan - y diweddaraf ar drosglwyddo i allyriadau isel iawn.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Datganodd y Cyng Nathan Goldup-John ddiddordeb yn Eitem 8 gan ei fod yn gweithio i Trafnidiaeth Cymru. Caniateir iddo siarad.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14/07/2023, 28/07/2023, 14/09/2023a 06/10/2023 fel cofnod cywir o'r trafodion.

4. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2023/2024 - Perfformiad Chwarter 2 (1 Ebrill 2023 - 30 Medi 2023

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau am Ddangosyddion Perfformiad Allweddol 2023/2024 - Perfformiad Chwarter 2 (1 Ebrill 2023 - 30 Medi 2023) fel y'i cyflwynwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Tynnodd yr Aelodau sylw at y ffaith bod y gwaith cynllunio'n goch, ar dudalen 29 yr adroddiad. Cydnabu'r aelodau fod yr adran wedi colli aelod o staff a gofynnwyd a oeddent wedi dod o hyd i berson newydd yn ei le a pha mor bell y tu ôl oedd yr adran?

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod y swyddog a oedd wedi gadael yn y tîm gorfodi felly nid yw'n effeithio ar y dangosydd perfformiad allweddol y cyfeiriwyd ato. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y coch yn ymwneud â cheisiadau mawr a'r amser a gymerir i benderfynu ar y ceisiadau hynny. Esboniodd swyddogion fod y dangosydd perfformiad allweddol hwn yn un anodd ei gyflawni oherwydd cymhlethdod y ceisiadau sy'n cyrraedd ac o ganlyniad i hynny, mae'r tîm hwnnw bob amser yn ceisio gweithio gydag ymgeiswyr a datblygwyr i neilltuo gweithgareddau ar gyfer camau cynnar y broses drwy drafodaethau cyn cyflwyno ceisiadau i geisio dad-beryglu'r broses.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod y tîm wedi cyrraedd targed y dangosydd perfformiad allweddol ar gyfer y chwarter cyntaf ond y chwarter hwn fe fethon nhw'n bennaf oherwydd bod pedwar cais mawr sy'n anarferol. Roedd hyn hefyd yn digwydd yn ystod cyfnod yr haf lle mae'r rhan fwyaf o'r tîm yn defnyddio eu gwyliau blynyddol.

Esboniodd swyddogion mai'r gwersi a ddysgwyd oedd, pan fydd swyddogion yn gallu gweld eu bod yn mynd i gael anawsterau i benderfynu ar y ceisiadau, byddant yn dechrau gweithio gyda'r ymgeiswyr a'r datblygwyr ac yn derbyn rhagor o amser os oes angen.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod perfformiad y tîm yn dda o ran ceisiadau cynllunio. Ond ar y mater hwn, mae amgylchiadau penodol sy'n esbonio'r gostyngiad hwn mewn perfformiad.

Roedd yr aelodau am wybod pa ardaloedd y mae'r swyddogion yn eu gwasanaethu mewn perthynas â'r dangosydd perfformiad allweddol ar gyfer baw cŵn. Dywedodd swyddogion y gallant anfon gwybodaeth at yr aelodau ynghylch ble maen nhw wedi bod o ran baw cŵn.

Nodwyd yr adroddiad.

<u>Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd</u>

Cyflwynodd Mike Roberts yr adroddiad a dywedodd mai dyma'r chweched diweddariad i'r cynlluniau. Roedd COVID-19 wedi effeithio ar y drefn ac felly mae hyn wedi amharu ar bethau ac mae cwpl o ddarnau o waith i'w wneud arno o hyd. Bydd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh) yn cael effaith ar sut y mae'r awdurdod yn rheoli'r asedau a bydd angen iddynt gyflwyno adroddiad newydd ar ôl i'r CTRh gael ei roi ar waith. Dywedodd swyddogion, yn hanesyddol, roedd y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd yn ymwneud â rheoli'r briffordd fabwysiedig. Dywedodd swyddogion, wrth ystyried teithio llesol, yn yr adroddiad eglurhaol mae'n nodi bod angen iddynt bellach edrych ar y rhwydwaith o lwybrau beiciau cyffredinol hefyd. Bydd hyn yn cymryd amser ac mae'n ddarn ychwanegol o waith. Yng ngoleuni hyn, dywedodd swyddogion y gallent naill ai ymestyn yr adroddiad am flwyddyn neu ddarparu'r adroddiad dros dro lle maent yn cydnabod bod angen iddynt wneud 2 ddarn arall o waith.

Cododd yr Aelodau, ar dudalen 115 o'r adroddiad lle mae'n cyfeirio at waliau cynnal, rhestrwyd dros 1262 lle nad oedd yr awdurdod yn gwybod pwy oedd yn berchen arnynt ac roeddent am wybod a yw hyn yn o ganlyniad i derminoleg yn unig neu os nad oedd yr awdurdod yn ymwybodol o'r ateb.
Gofynnodd yr aelodau hefyd beth oedd y talfyriad SCRIM yn ei olygu, a gan fod yr adroddiad yn cynnwys llawer o dalfyriadau, a oedd modd cynnwys geirfa mewn adroddiadau fel hyn?
Dywedodd swyddogion nad yw'r awdurdod yn gwybod pwy sy'n berchen ar yr eiddo sy'n ymwneud â'r waliau cynnal. Mae dyletswydd gofal ar yr awdurdod, os daw i sylw'r swyddogion bod strwythur sy'n ffinio â'r briffordd sy'n peri pryder, yna mae'n rhaid i'r awdurdod ymchwilio i'r berchnogaeth ac yna bydd swyddogion yn cymryd unrhyw gamau angenrheidiol i wneud unrhyw waith atgyweirio.

Gall swyddogion roi hysbysiadau cyfreithiol ffurfiol ar dirfeddianwyr ac os na fyddant yn ymateb yna bydd y cyngor yn gweithredu ac yna'n ceisio adennill costau gan y perchnogion. Mewn amgylchiadau lle nad oes perchnogion cofrestredig, yna mae dyletswydd ar yr awdurdod i drefnu i'w sicrhau ei fod yn ddiogel. Mae peidio â gwybod holl berchnogion y strwythurau'n ardal perygl ar gyfer yr awdurdod fel y nodir ar y gofrestr risgiau corfforaethol. Nodwyd nad oes cyllid penodol wedi'i ddyrannu i archwilio'r strwythurau hyn ac mae'r awdurdod yn cymryd rôl adweithiol.

Ymddiheurodd swyddogion am ddefnyddio sawl talfyriad a dywedwyd eu bod yn diwygio'r adroddiad i gynnwys yr enwau llawn lle ceir acronymau ac eglurwyd bod SCRIM yn ymwneud â sut mae swyddogion yn mesur pellter llithro ac mae'n golygu Peiriant Ymchwilio i Gyfernod Gwrthiant i'r Ochr (Sideways Coefficient of Resistance Investigation Machine).

Fe wnaeth aelodau godi'r mater bod y cynllun yn dweud mai rhan o'r broses asesu yw'r defnydd gan draffig ac mae hynny'n cael ei ddefnyddio i gyfrifo'r angen am waith atgyweirio penodol a'r manteision a ddaw ohono.  Dywedodd yr aelodau fod gan rai cymunedau'r cymoedd, sy'n ardaloedd mwy gwledig, lefelau traffig is ond hefyd mae ganddynt drafnidiaeth gyhoeddus wael sy'n golygu bod yr angen yn cael ei ystyried yn llawer uwch yn lleol. A yw hynny'n cael ei ystyried? A pham nad yw hynny'n cael ei ystyried gan nad yw'r adroddiad yn datgan unrhyw effaith ar gymunedau'r cymoedd.

Esboniodd swyddogion mai cerbydau nwyddau trwm sy'n cael yr effaith fwyaf ar draul y ffordd ac mae hynny'n cael ei ystyried yn aml wrth ddylunio ffyrdd cerbydau. Roedd swyddogion yn deall bod ardaloedd gwledig yn ddibynnol ar ffyrdd ond dywedodd, o ran cynnal a chadw, mai cerbydau nwyddau trwm a 'miliwn o echelau safonol' sy'n effeithio ar y dyluniad, cylch bywyd a chynnal a chadw ffyrdd. Nid yw'n edrych ar flaenoriaeth ardaloedd y cymoedd o ran cylch bywyd ac mae'n edrych ar y defnydd o'r ffordd fel y prif ffactor.

Dywedodd yr aelodau nad oedd yr asesiad effaith yn nodi'r effaith ar gymunedau'r cymoedd. Dywedodd yr aelodau fod y draul i'r ffordd yn amherthnasol adeg hynny gan fod y ffordd eisoes wedi'i difrodi ac mae rhan o'r asesiad ynghylch ym mhle caiff y gronfa ar gyfer gwaith atgyweirio'n ei defnyddio'n seiliedig ar y defnydd gan draffig a'r angen. Mae aelodau o'r farn ei bod hi ychydig yn rhy hwyr unwaith y mae angen ei atgyweirio.

Mae aelodau'n deall bod traul yn rhan o'r broses amserlennu oherwydd bydd angen mwy o waith cynnal a chadw ar ffyrdd sy'n cael eu defnyddio'n fwy gan gerbydau trwm, ond nid oeddent yn deall pam ei fod yn rhan o'r broses asesu ar gyfer atgyweirio ffyrdd sydd â difrod.

Dywedodd swyddogion fod system adweithiol ar gyfer adroddiadau am atgyweiriadau ac yna gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio. Mae'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd hwn yn rhan o gyfres o ddogfennau, gan gynnwys y cynllun cynnal a chadw priffyrdd, y gyfundrefn arolygu priffyrdd ac yn y dyfodol yr adroddiad statws ac opsiynau sy'n edrych ar asedau'r awdurdod. Mae'r ddogfen yn nodi'r hyn y mae angen i chi ei wario dros y tymor hwy i gynnal lefelau penodol o gyflwr y briffordd.

Tynnodd yr aelodau sylw at dudalen 127 lle mae'r adroddiad yn nodi, 'rheoli mynediad i'r dref' ym Mhontardawe ac roeddent am wybod beth oedd hyn yn ei olygu gan ei fod yn swnio fel ei fod yn ceisio atal pobl rhag mynd yno.

Eglurodd swyddogion nad yw Llywodraeth Cymru (LlC) bellach yn cefnogi gwelliannau o ran capasiti felly yn y gorffennol pe bai unrhyw dagfeydd, byddent yn ceisio ymdrin â nhw drwy ddatblygu capasiti. Nawr nad oes arian ar gyfer hyn, mae'n rhaid i'r awdurdod edrych ar opsiynau eraill oni bai y gall yr awdurdod ariannu capasiti cynyddol eu hunain. Mae'n rhaid i'r awdurdod nawr edrych ar reoli capasiti a sut y maent yn annog pobl i ddefnyddio ffurfiau eraill o deithio fel bysus, teithio llesol etc. Y gwir amdani yw bod yn rhaid i'r awdurdod reoli'r hyn sydd ganddynt.

Gofynnodd yr Aelodau, ynghylch tudalen 140 o dan yr ymgymerwyr statudol, allai'r awdurdod gynyddu'r cyfnod cynnal a chadw ar gyfer y cwmnïau cyfleustodau nad ydynt yn gwneud gwaith da i 4-5 mlynedd er mwyn cymell perfformiad gwell.

Esboniodd swyddogion fod uchafswm sydd wedi'i gapio o dan ganllawiau statudol ar gyfer hyn.
Gofynnodd yr Aelodau beth y mae 'dyheadau gwleidyddol' yn ei olygu ar dudalen 153.
Esboniodd swyddogion fod hyn yn ymwneud ag a oedd ystyriaeth gan aelodau eu bod am flaenoriaethu gwaith cynnal a chadw priffyrdd, er mwyn cael safon uwch o ran cynnal a chadw a chyflwr. Defnyddiodd swyddogion enghraifft, efallai bod aelodau am gael uchafswm o 2% o brif ffyrdd a 3% o gilffyrdd lle mae angen gwaith

cynnal a chadw arnynt, felly gall aelodau osod hynny fel safon (y dyhead) ond yna byddai'r adroddiad statws ac opsiynau'n golygu y byddai angen i swyddogion wedyn edrych ar lefel y gwariant y mae ei angen i gynnal y safon honno.

Ymatebodd y Cadeirydd i'r sylwadau agoriadol gan swyddogion ynghylch y gwaith y mae angen ei wneud o hyd ar y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd a'r cyfeiriad a wnaed at y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh) sy'n cael ei ystyried gan y Cyd-bwyllgor Corfforaethol (CBC) ar hyn o bryd. Disgwylir i hyn gael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2025 a nodwyd y cynhelir trafodaeth bellach gyda LlC ar yr amserlen hynod o dynn ar gyfer mabwysiadu'r cynllun. Pe bai Llywodraeth Cymru'n derbyn estyniad i'r amserlen bresennol, yna byddai hynny'n mynd â ni i ddiwedd y fersiwn hon o'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd. Dywedodd y cadeirydd ei fod yn poeni na fyddai'r fersiwn yma o'r cynllun yn cael ei ddiweddaru o fewn amserlen y CTRh. Yr ochr arall yw, o ran lle nad yw'r cynllun yn cydymffurfio â Llwybr Newydd a Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (SDC) ar hyn o bryd, roedd am wybod beth yw'r amserlen ar gyfer diweddaru'r cynllun mewn perthynas â hynny? Tynnodd y cadeirydd sylw at y ffaith bod SDC/Llwybr Newydd eisoes ar waith ar gyfer pryd y disgwyliwyd rhoi'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd ar waith ac roedd yn siomedig ei fod wedi cael ei symud ymlaen heb ystyried y SDC a'r polisi cenedlaethol yn llawn, ac mae'n eithaf brys bod y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd yn cydymffurfio â'r holl bolisïau cenedlaethol.

Dywedodd swyddogion, yn hanesyddol, nad yw'r  Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd wedi edrych ar unrhyw beth y tu allan i'r rhwydwaith mabwysiedig ac mae swyddogion yn ansicr ynghylch a yw hynny'n cael ei gynnwys yn y cynllun cenedlaethol ond mae swyddogion yn cydnabod bod bellach angen i'r awdurdod ymestyn y tu hwnt i'r rhwydwaith mabwysiedig ac edrych ar y rhwydwaith beicio cyffredinol p'un a yw'r rheini ar dir cyhoeddus neu breifat a thir sydd wedi'i fabwysiadau neu heb ei fabwysiadu. Mae swyddogion yn gwybod bod llwybrau beicio ar y cynllun nad ydynt ar briffyrdd mabwysiedig ac nad ydynt yn bodloni safonau mabwysiadol ac mae angen ymagwedd fwy cyfannol.

Dywedodd swyddogion fod materion pellach a fydd yn cynnwys asesiadau y tu hwnt i'r briffordd fabwysiedig ac yn edrych ar bob agwedd ar y rhwydwaith beicio. Os byddwch yn dod â'r cyfan o fewn cyfundrefn arolygu, bydd angen iddynt ystyried a oes safon fabwysiedig neu safon ofynnol ac yna ar gyfer cynnal a chadw efallai y bydd yn rhaid iddynt edrych ar safonau gofynnol ar draws y

rhwydwaith cyfan sydd wedi'i fabwysiadu ac sydd heb ei fabwysiadu. Gallai gwneud hynny hefyd gyflwyno problemau gydag ariannu oherwydd ar hyn o bryd nid yw'r awdurdod yn ariannu rhwydwaith heb ei fabwysiadu i'r un safon â'r rhwydwaith sydd wedi'i fabwysiadu. Dywedodd swyddogion fod hwn yn ddarn sylweddol o waith ac y gallai gymryd blwyddyn i'w gwblhau ac mae'n amodol ar yr adnoddau sydd ar gael.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau hefyd, mewn perthynas â theithio llesol, mae gwahaniaeth rhwng y rheolaeth o ran y mathau gwahanol o ddarpariaeth, mae angen i swyddogion resymoli i sicrhau bod troedffyrdd, llwybrau beicio a pharciau defnydd a rennir yn cael eu harolygu a'u cynnal a chadw'n briodol ac nad yw hyn yn gyson ar hyn o bryd. Nododd swyddogion fod hwn yn fwlch o fewn y ddeddf gan fod y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd yn ymdrin â phriffyrdd mabwysiedig ond mae llawer o'r rhwydwaith beicio ar dir preifat neu briffyrdd sydd heb eu mabwysiadu.

Esboniodd swyddogion, mewn perthynas â'r CBC a'r CTRh, er bod pob rhanbarth yn codi pryderon ynghylch yr amserlen gyda Llywodraeth Cymru fel rhan o gyflwyno'r cynllun gweithredu, mae'n rhaglen heriol iawn i gyflawni nifer yr astudiaethau y mae eu hangen o fewn y cyfnod hwnnw. Mae swyddogion yn awgrymu y byddai'n cymryd o leiaf 12 mis arall i lunio cynllun ystyrlon a chadarn sy'n ymdrin â barn yr holl randdeiliaid. Nid yw swyddogion yn sicr beth fydd Llywodraeth Cymru'n feddwl o hyn. Ar hyn o bryd nid oes hyblygrwydd ar ac mae cyllid cyfyngedig iawn ar gyfer cwblhau'r gwaith. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod rhanbarth y de-orllewin wedi cyflwyno ei gynllun gweithredu drafft erbyn y dyddiad y'i disgwylir ar ddiwedd mis Hydref a'u bod yn aros am adborth gan Lywodraeth Cymru.

Dywedodd swyddogion eu bod yn debygol o gael eu cynghori bod yn rhaid i'r CTRh ystyried y cynllunio defnydd tir ar draws y rhanbarth, ond mae'r cynllun datblygu strategol ymhellach y tu ôl i'r CTRh. Maent yn dibynnu ar ei gilydd; nid yw swyddogion yn sicr a fydd Llywodraeth Cymru'n ymestyn y cyfnod hwn ac yn gofyn i'r Cynllun Datblygu Strategol gyflwyno cynlluniau dros dro'n gynt neu beidio. Mae swyddogion yn gweithio tuag at 2025 ar gyfer cynllun mabwysiedig. Mae swyddogion yn credu y gallent ddod ag adroddiad yn ôl ar elfen teithio llesol y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd hyd yn oed os yw'r elfennau eraill yn cael eu gohirio.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn credu ei bod yn hanfodol bod y gwaith teithio llesol yn dod yn ôl cyn gynted â phosibl a bod gwerth pwysleisio nad yw'r gwaith yn golygu gwaith rheoli llwybrau beicio cyffredinol ond hefyd sut mae priffyrdd mabwysiedig a lle ar y ffyrdd yn cael eu categoreiddio a'u blaenoriaethu hefyd mewn perthynas â theithio llesol.
Cyfeiriodd yr aelodau at dudalen 171 sy'n sôn am bontydd a sut y cânt eu hasesu o bryd i'w gilydd a dyna'r amcan ond hefyd ar dudalen 183 mae'r adroddiad yn nodi nad yw asesu pontydd wedi bod yn gyson ac roedd aelodau am wybod pam nad oes amserlen 3–5 mlynedd fel targed i'w hatal rhag bod yn anghyson wrth symud ymlaen.

Esboniodd swyddogion fod dau fath o arolygiadau. Arolygiad cyffredinol sy'n weledol a gwneir hynny dros 2 flynedd. Mae 50% o'r arolygiadau hynny'n cael eu cynnal bob blwyddyn. Cynhelir prif arolygiadau hefyd yn unol â'r canllawiau statudol a gwneir hynny bob 6 blynedd ac ar gyfartaledd maent yn gwneud 20 y flwyddyn. Maent ar y trywydd iawn ar hyn o bryd, fodd bynnag, roedd pwynt lle roeddent ar ei hôl hi pan adawodd rhai peirianwyr arolygu yr awdurdod ond erbyn hyn, maen nhw nôl ar y trywydd iawn.

Holodd yr Aelodau am yr arolwg isadeiledd draenio a gofynnwyd a oedd hyn yn bosibl aelodau ei weld ar sail eu hardaloedd. Dywedodd swyddogion eu bod yn hapus i rannu gwybodaeth am hyn ond o ystyried faint o wybodaeth sydd gan y cyngor efallai byddai'n haws eistedd i lawr gyda swyddogion neu edrych arnynt ar-lein. Eglurodd swyddogion fod yr awdurdod yn gyfrifol am ddraenio priffyrdd a draenio tir ar dir yr awdurdod yn unig.  Mae gan y cyngor ddiddordeb hefyd mewn systemau carthffosiaeth cyfun Dŵr Cymru sy'n derbyn draeniad yr awdurdod.

Roedd yr aelodau am wybod a oedd map sy'n dangos ble mae'r meysydd sy'n broblem gan y gallai fod yn ddefnyddiol i aelodau wybod yr hyn y mae swyddogion yn gweithio arno. Dywedodd swyddogion fod ganddynt gyllideb o £300,000 ond mae ganddynt lu o flaenoriaethau i ymdrin â nhw. Mae'r swm hwn wedi bod yr un fath ers nifer o flynyddoedd ac ynghyd â'r tywydd yn newid mae ganddynt restr hir o anghenion ac mae'r rhai mwyaf brys ar frig y rhestr. Disgwylir i'r aelodau dderbyn Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd diwygiedig maes o law.
Yn dilyn craffu roedd yr aelodau’n gefnogol o'r argymhellion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

Ynni Goleuadau Stryd
Derbyniodd yr aelodau wybodaeth am Ynni Goleuadau Stryd fel y'i cyflwynwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Gwnaeth yr Aelodau sylwadau ynghylch y risg gynyddol i ddiogelwch y cyhoedd yn erbyn y costau a arbedir trwy bylu goleuadau stryd neu ddiffodd goleuadau ac anogwyd y cabinet i edrych ar y mater yn ofalus ac ymdrechu i gadw goleuadau ymlaen.

Gofynnodd yr aelodau gyfres o gwestiynau;
Beth ydy pylu golau stryd 3-watt yn ei olygu mewn canrannau?

Pa feini prawf sydd wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer ardaloedd targed?

A ellid defnyddio synwyryddion yn lle a fyddai'n cael eu troi ymlaen a'u diffodd ar adegau penodol?

Pa effaith fydd hyn yn ei gael ar oleuadau Nadolig gan eu bod yn cael eu cyflenwad pŵer gan oleuadau stryd?

Pryd gafodd ei dreialu o'r blaen a pha ganran gafodd y goleuadau eu pylu iddo?

Dywedodd swyddogion fod hyn yn y dyddiau cynnar o ran y cynigion ac maent wedi cael y dasg o weld a yw'n bosibl gwneud unrhyw arbedion oherwydd y cynnydd mewn costau ynni. Mae'r rhain wedi cael eu nodi yn yr adroddiad ac mae angen ymgynghoriad ar swyddogion i lywio asesiad effaith integredig. Mae dros 500 o dudalennau o leoliadau ar gyfer pylu a diffodd golau rhan amser posib. Bydd y lleoliadau hyn ar gael yn yr ymgynghoriad er mwyn i'r cyhoedd chwilio am eu strydoedd unigol, ar gyfer pylu golau a golau rhan amser.

Nid yw'r cyngor yn trefnu goleuadau Nadolig mwyach ac mae'r cyfrifoldeb ar gynghorau tref a grwpiau lleol.  Ni fydd pylu'r goleuadau'n effeithio ar y pŵer sydd ar gael ar gyfer goleuadau Nadolig sy'n gysylltiedig â cheblau cyflenwi goleuadau stryd.

Gofynnodd y Cadeirydd am y rhesymeg ynghylch yr ardaloedd a ddewiswyd ar gyfer golau rhan amser gyda'r nos. Roedd y cadeirydd hefyd yn teimlo y byddai'r rhestr yn ei wneud yn  anodd iawn i'r cyhoedd ganfod sut yr effeithir ar yr ardaloedd y byddent yn eu defnyddio'n aml.

Dywedwyd wrth swyddogion fod ymgynghorydd profiadol wedi bod yn rhan o'r broses a oedd wedi rhoi canllawiau ar waith a gyhoeddwyd gan Sefydliad y Gweithwyr Goleuo Proffesiynol. Gallai swyddogion sicrhau bod adroddiad yr ymgynghorydd ar gael i aelodau, mae rhestr o waharddiadau golau rhan amser gyda'r nos gan gynnwys cyffyrdd/cylchfannau sydd â lefelau uchel o draffig, ardaloedd sydd â nifer uchel o ddamweiniau, ardaloedd lle mae teledu cylch cyfyng yn bresennol o fewn 50 metr i golofn goleuadau stryd, ardaloedd sydd â chyfraddau uchel o drosedd, canol trefi, meysydd parcio cyhoeddus a phrif lwybrau traffig. Consensws yr adroddiad yw byddant yn pylu goleuadau mewn ardaloedd preswyl yn hytrach na phrif lwybrau gweithredol.

O ran y rhestrau o strydoedd ar gyfer goleuadau rhan amser gyda'r nos a phylu goleuadau, byddai swyddogion yn gofyn i TG a oedd modd gwneud rhestrau y gellid eu chwilio yn ôl enw'r stryd er mwyn ei wneud yn haws i breswylwyr. Dywedodd yr aelodau y byddai map yn ddefnyddiol fel y gallai'r cyhoedd ymchwilio i deithiau rheolaidd a gweld sut yr effeithir arnynt. Atebodd swyddogion y gallai cynhyrchu map fod yn anodd ond fe fyddant yn gweld beth allen nhw ei wneud gyda TG.

Gofynnodd yr aelodau hefyd beth oedd y meini prawf ar gyfer penderfynu ar y ffyrdd lle byddai'r golau'n cael ei bylu. Nododd swyddogion fod y golau mewn llawer o ardaloedd stadau yn benodol eisoes wedi'i bylu. Yn fwy diweddar gosodwyd goleuadau LED i gymryd lle'r goleuadau sodiwm gwasgedd uchel â watedd uwch a'r goleuadau hyn yw'r rhai y bwriedir eu pylu erbyn hyn. Er mwyn gweld yr effaith, cynigiodd Swyddogion rai safleoedd arddangos lle gall pobl weld y goleuadau wedi'u pylu 25%.

Holodd yr aelodau am yr hyn sy'n digwydd ynghylch coed yn cuddio goleuadau ar hyn o bryd oherwydd pe bai'r goleuadau'n cael eu pylu heb i'r coed gael eu torri yna byddai'r strydoedd yn cael eu goleuo'n wael. Dywedodd swyddogion yr ymdrinnir â'r rhain pan adroddir amdanynt a bydd hynny'n parhau.

Cydnabu'r Aelodau yr ymgynghoriad â'r Heddlu ac anogwyd ymgynghoriad pellach mewn perthynas ag ardaloedd lle mae trosedd yn digwydd a phylu goleuadau.
Mae'r aelodau'n cefnogi'r syniad o dreialu pylu goleuadau fel bod gan gynghorwyr ddealltwriaeth well o sut fyddai hyn yn edrych a chroesawyd y cynnig i weld adroddiad llawn yr ymgynghorydd.

Gwnaeth aelod awgrym bod angen trothwy uchel, o leiaf 80% o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad cyhoeddus, ateb er mwyn i unrhyw newidiadau i oleuadau gael eu rhoi ar waith oherwydd nifer y bobl yr effeithir arnynt gan unrhyw newidiadau.

Dywedodd yr aelodau fod nifer o oleuadau LED wedi bod yn rhy llachar mewn rhai achosion ac roedd hyn yn golygu bod angen i drigolion ddefnyddio cysgodlenni.

Cafwyd trafodaeth bellach ynghylch manteision cael map clir o'r ardaloedd yr effeithiwyd arnynt.  Nid oedd swyddogion yn gallu rhoi sicrwydd o 100% eu bod yn gallu llunio map ond byddent yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i drigolion chwilio am yr ardaloedd lle cynigir newidiadau.

Byddai swyddogion yn edrych ar ba wybodaeth ddaearyddol y gallent ei rhoi ond byddai'n rhaid iddynt ystyried yr amser a'r gost i weld yr hyn y gallent ei wneud.
Yn dilyn y drafodaeth hon, cyflwynwyd y diwygiadau canlynol gan y pwyllgor craffu:

Bydd yr ymgynghoriad yn cynnwys map clir o'r ardaloedd yr effeithir arnynt.

Yn dilyn craffu, cefnogwyd yr argymhelliad i Fwrdd y Cabinet gyda'r diwygiadau.

Strategaeth Isadeiledd Cerbydau Di-allyriadau (ZEVIS)
Derbyniodd yr aelodau wybodaeth am Strategaeth Isadeiledd Cerbydau Di-allyriadau (ZEVIS) fel y'i cyflwynwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Cyfeiriodd yr aelodau at dudalen 287. Mae'n sôn am atgyfnerthu'r grid a'r gost sy'n gysylltiedig ag atgyfnerthu'r grid. Roedd yr Aelodau am wybod pwy fyddai'n talu'r costau hynny?

Cyfeiriodd yr aelodau hefyd at ddatgarboneiddio'r cerbydlu llwyd ac os yw'r awdurdod yn cynnig ac yn hyrwyddo cynllun aberthu i'r gweithwyr.

Cyfeiriodd yr Aelodau at dudalen 320 o'r adroddiad, yn benodol y cynllun gweithredu ac roeddent am wybod pryd y byddai hynny'n cael

ei gynhyrchu, pwy oedd yn ei gynhyrchu ac o ble byddai'r gyllideb yn dod ar gyfer cynhyrchu'r cynllun?

Dywedodd swyddogion fod cost sylweddol gyda chysylltiadau grid ac mae hyn yn cynyddu wrth i chi osod gwefrwyr cyflymach. Erbyn hyn mae'r grid cenedlaethol yn codi cost gyfrannol yn hytrach na chost gyflawn ar gyfer is-orsaf newydd. Mae hyn yn welliant ond mae ffigurau uchel o hyd ar gyfer gwefrwyr â phŵer uchel. Byddai'r prosiect yn talu am hynny ac er bod cyllid ar gael mae hynny'n dal i fynd trwy gostau'r prosiect.

Esboniodd swyddogion fod y cynllun aberthu cyflog yn cael ei lansio cyn bo hir, bydd swyddogion yn monitro'r nifer sy'n manteisio arno pan fydd y cynllun ar waith. Dywedodd swyddogion fod goblygiadau y mae angen i bobl sy'n manteisio arno eu deall, mewn perthynas â'r milltiroedd y gallant eu hawlio wrth ddefnyddio eu car aberthu cyflog. Bydd y cerbydau hyn yn helpu i leihau allyriadau'r cerbydlu llwyd.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau, ar gyfer y cynllun gweithredu, maent yn gweithio tuag at y camau nesaf fel rhaglen llwybr carlam fel y gallant weithio'n gymharol gyflym. Eiddo y mae'r cyngor yn berchen arno fel ysgolion, meysydd parcio, canolfannau cymunedol etc, gallant weithio gyda chydweithwyr yno a chyda'r Grid Cenedlaethol. Maen nhw'n gweithio ar y rhaglen llwybr carlam nawr ac yn ceisio canfod ffordd lle gall preswylwyr neu weithwyr/cerbydau'r awdurdod ddefnyddio'r gwefryddion hyn yn y lleoliadau hynny sy'n eiddo i'r awdurdod. Mae'r ddogfen strategol wedi cael ei dylunio i hysbysu ac i arwain swyddogion ymlaen.

Roedd yr aelodau am wybod a oedd y cynllun gweithredu'n gynllun corfforol eto. Dywedodd swyddogion ei fod yn waith ar y gweill ond cyn gynted ag y bydd y cynllun gweithredu'n barod ar ffurf adroddiad bydd y cynllun ar gael. Amcangyfrifodd swyddogion y byddai'n cymryd 6 mis i'w gyflawni. Dywedodd swyddogion y byddai'n ddogfen ddynamig gan y bydd y byd yn symud heibio'r awdurdod. Bydd y sector preifat yn arwain oherwydd, yn fasnachol, bydd yn gwneud synnwyr iddynt wneud hynny mewn rhai sefyllfaoedd. Roedd swyddogion yn ystyried bod yr awdurdod yn canolbwyntio mwy mewn ardaloedd lle na fyddai pobl yn cael mynediad at wefrydd gan na fyddai'n gwneud synnwyr masnachol.

Nododd yr Aelodau fod opsiynau wedi'u cynnwys ar fathau o isadeiledd gwefru trydan ar y stryd yn yr adroddiad a thynnwyd sylw at y ffaith bod angen i'r awdurdod fod yn ofalus gyda'r opsiynau y

maent yn eu dewis a'r effaith y maent yn ei chael ar gerddwyr a'r briffordd fel nad oes unrhyw effeithiau negyddol anfwriadol ar yr isadeiledd teithio llesol.

Nodwyd yr adroddiad.

Mannau gwefru preswyl ar y stryd ar gyfer cerbydau trydan

Derbyniodd yr aelodau wybodaeth am fannau gwefru preswyl ar y stryd ar gyfer cerbydau trydan fel y'i cyflwynwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

O ystyried yr adnoddau cyfyngedig sydd gan yr awdurdod, teimlai'r aelodau y dylent fynd gydag un system ac edrych i mewn i sut i wneud hynny'n gywir yn hytrach na sawl opsiwn.
Gofynnodd yr aelodau a yw'r awdurdod yn datblygu'r polisi nawr oherwydd bod problem eisoes neu oherwydd eu bod yn credu y bydd yn broblem gyda phobl yn llusgo ceblau ar y palmentydd. Os yw pobl yn gwneud hyn eisoes, byddai angen i'r awdurdod gynnig dewis arall iddynt.

Teimlai'r aelodau y gellid defnyddio'r bobl hyn mewn treial o atebion amgen i gael ceblau ar y palmant.

Dywedodd swyddogion mai un rheswm y gwnaethon nhw gyflwyno'r adroddiad oedd codi ymwybyddiaeth am eu bod yn credu y bydd problem. Mae nifer fach o bobl wedi bod yn gofyn i swyddogion am ganiatâd i roi ceblau ar y palmant ac mae'r rhain wedi cael eu gwrthod o dan rwymedigaethau'r cyngor, ond nid oes polisi ffurfiol arno. Mae swyddogion hefyd yn teimlo bod angen canllawiau cenedlaethol ar Gymru ar hyn ac mae angen cydlynu'r treialon sy'n digwydd. Mae swyddogion hefyd yn credu efallai bod angen diwygiadau i'r Ddeddf Priffyrdd a/neu ganllawiau fel bod pawb yn gwybod ym mhle ydyn nhw. Mae angen ystyriaeth gydlynol ar hyn. Mae swyddogion yn sylweddoli y bydd hyn yn broblem gynyddol gyda chynnydd yn nifer y bobl sy'n prynu cerbydau trydan a byddant yn gweld beth y gallant ei wneud. Gallai'r Strategaeth Isadeiledd Di-allyriadau ddod i rym lle gallai hybiau cymunedol helpu gyda gwefru.

Gofynnodd yr aelodau a oes gan Lywodraeth Cymru neu Trafnidiaeth Cymru awydd i edrych ar hyn. Cytunodd swyddogion fod LlC a TrC yn awyddus i edrych ar hyn a'u bod yn ymchwilio iddo. Ar hyn o bryd mae arloesedd ar y blaen o'i gymharu â deddfwriaeth ac mae perygl o ymgyfreitha os nad oes cynllun cydlynol. Byddai swyddogion yn

fodlon i CNPT gymryd rhan mewn treial na wnaed gan awdurdod lleol arall eisoes i hyrwyddo'r agenda a symud pethau ymlaen a dangos i breswylwyr bod yr awdurdod yn symud y cynllun ymlaen. Mae Llywodraeth Cymru'n derbyn adborth gan ALl a darparwyr datrysiadau er mwyn dod o hyd i ffordd o wneud i hyn weithio.

Gofynnodd yr Aelodau pam nad yw gwefrwyr dros dro/pwyntiau mynediad dros dro at fannau gwefru yn y palmant sydd wedi'i gysylltu â'r cyflenwad cartref wedi cael eu hystyried. Nododd swyddogion fod treialon gwahanol o'r systemau yn yr adroddiad. Dywedodd Aelod y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Thwf Economaidd fod systemau sy'n mapio mannau gwefru preifat lle gallwch dalu i wefru ac ystyriwyd y gallai gwella mapio fel rhan o'r strategaeth i gynnwys y mannau gwefru ychwanegol hyn fod o gymorth.

Mae swyddogion yn edrych ar enghreifftiau o fannau gwefru dros dro ond mae ystyriaethau i'w gwneud ynglŷn â safonau gofynnol teithio llesol ar gyfer llwybrau troed ac ati, felly mae goblygiadau o ran yr atebion y gellir eu defnyddio, a dyna pam mae safonau cenedlaethol yn bwysig.

Yn dilyn craffu roedd yr aelodau’n gefnogol o'r argymhellion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

Y Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan - y diweddaraf ar drosglwyddo i allyriadau isel iawn

Dywedodd yr Aelodau fod y lorïau sbwriel sy'n cael eu treialu nawr yn gorfod mynd yn ôl i gymunedau fwy nag unwaith ac mae'n bryder na all y cerbyd a ddefnyddir wneud ail ymweliad â rhai cymunedau. Yn seiliedig ar hyn roeddent am wybod a oedd modd gosod gwefrydd yn yr ardaloedd hynny.

Dywedodd swyddogion eu bod yn ceisio disodli'r cerbydau ailgylchu a'u bod wedi prynu un ac mae'n gweithio'n dda. Dywedodd swyddogion nad ydynt wedi dod o hyd i lori sbwriel trydan sy'n addas ar gyfer amgylchiadau daearyddol yr awdurdod ac sy'n gallu cwblhau dwy daith i fyny ac i lawr y dyffryn gyda storfeydd batris digonol hefyd. Ystyriaethau pwysau lorïau sbwriel trydan wedi'u llenwi yw'r brif broblem o ran eu diffyg addasrwydd gan fod llawer o straen ar y batris a'r moduron. Dywedodd swyddogion, os nad ydynt yn dod o hyd i gerbydau trydan amgen addas yn lle'r cerbydau diesel erbyn y dyddiad y mae angen eu hadnewyddu, byddant yn edrych ar

gerbydau hydrogen fel dewis amgen, er, nodwyd y byddai angen cyflenwad hydrogen gwyrdd sydd ar gael yn rhwydd.

Mewn perthynas â gwefrwyr yn ardal y Cymer, mae gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas â'r cynllun 5 mlynedd ar gyfer trosglwyddo'r cerbydlu i gerbydau trydan a gadael llys Tregellis ac fel rhan o'r cynllun hwnnw maent yn gobeithio gosod cyfleusterau gwefru gwaith trwm ym mhob un o gymunedau'r cymoedd ac maent yn chwilio am grantiau i alluogi'r strategaeth hon. Mae swyddogion yn gobeithio am leoliadau Cwm Tawe, Cwm Dulais, Cwm Nedd a Chwm Afan fel y gall y gweithlu wefru cerbydau'n gyflym os oes angen yn yr ardaloedd hynny.
Dywedodd swyddogion wrth aelodau hefyd fod de-orllewin Cymru'n arwain Cymru gyfan ar y rhaglen drosglwyddo i gerbydau allyriadau isel iawn. O ran CNPT, caiff ei ddosbarthu fel awdurdod lleol cymysg ac mae arwyddion cynnar yn dangos bod CNPT ymhell ar y blaen o ran awdurdodau lleol cymysg ar gyfartaledd, yn CNPT mae 11.9% o'r cerbydlu'n drydanol o'i gymharu â gweddill yr awdurdodau cymysg lle mae 5.67% o'u cerbydlu'n drydanol. Nodwyd hefyd bod 90% o faniau a'r holl geir a brynwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn gerbydau di-allyriadau.

Mae swyddogion wedi cyflwyno tendr ar wefan Gwerthwch i Gymru ar gyfer y contract i ymestyn parcio'r lorïau ac i osod y pwyntiau gwefru cysylltiedig yn yr orsaf trosglwyddo gwastraff ar gyfer y cerbydlu gwastraff. Bydd gwefrwyr cyflym ac wrth i yrwyr gymryd eu seibiant gyrru statudol, bydd y cerbydau'n cael eu gwefru er mwyn cwblhau'r rowndiau.

Nodwyd yr adroddiad.

## 5. EITEMAU BRYS

Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.

## 6. COFNOD GWEITHREDU'R PWYLLGOR

Nododd Aelodau'r Pwyllgor y Cofnod Gweithredu.

## 7. BLAENRAGLEN WAITH

Nododd aelodau'r pwyllgor y Flaenraglen Waith.

8. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

Penderfynodd yr aelodau beidio â chraffu ar unrhyw eitemau preifat.

9. **CRAFFU EITEM/EITEMAU PREIFAT CYN PENDERFYNU**

Penderfynodd yr aelodau beidio â chraffu ar unrhyw eitemau preifat.
TRAILER_SECTION>

**CADEIRYDD**

# Environment, Regeneration & Neighbourhood Services Scrutiny Committee

## (All starting 10am unless otherwise stated)

| Meeting Date | Agenda Item | Contact Officer |
|---|---|---|
| **2023** | | |
| June 2nd | Burrows Yard – Update Report | Simon Brennan |
| | | |
| | | |
| July 14th | Active Travel - Update | Dave Griffiths |
| | Report on the Neath Integrated Transport Hub (NITH), progress to-date, background to proposal, and the subsequent documents:<br>• WelTAG 1<br>• WelTAG 2<br>• Canopy RIBA 2 Report<br>• Other background documents<br>This should be issued no later than 14 days prior to the next meeting. | Dave Griffiths |
| 28th July (Special) | | |
| September 14th (Special) | | |
| October 6th | | |
| Nov 17th | | |

| **2024** | | |
|---|---|---|
| Jan 12th | | |
| Feb 9th | | |
| March 22nd | | |
| April 19th (Special) | | |
| May 3rd (Cancelled) | | |
| | | |
| | | |
| | | |

**Report to be included in future cycle:**

- **Zero Emission Vehicle Infrastructure Strategy (ZEVIS) Implementation Action Plan – Nigel Morris (Is being worked on and due in 6 months approximately May 2024)**
- **Waste Strategy Action Plan Delivery Update - Mike Roberts (Early New Cycle of meetings)**